Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Glan y Môr**
**Ffordd Caerdydd**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 5NU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Glan y Môr yn ysgol naturiol ddwyieithiog i ddisgyblion 11-16 oed. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae ynddi 480 o ddisgyblion o'i gymharu â 518 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2009.

Lleolir yr ysgol yn nhref Pwllheli ac mae'n gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig o gwmpas. Daw'r disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac ychwaith dan anfantais economaidd. Mae 11.1% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r canran cenedlaethol o 17.1%.

Mae tua 75% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ac mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Canran fechan o ddisgyblion sy'n hanu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod lawn o allu. Mae 14% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth yn 2008. Mae'r tîm arwain yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan y Môr yn 2016-7 yw £4,741. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,729 a'r isafswm yw £4,292. Mae Ysgol Glan y Môr yn yr 11eg safle o'r 14 ysgol uwchradd yn awdurdod addysg Gwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

- Yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn agos at ddeilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn gyffredinol yn is na pherfformiad merched dros y pedair blynedd diwethaf.
- Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg am y drydedd flwyddyn yn olynol.
- Mae bron pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac mae llawer ohonynt yn ennill gradd A*-C.
- Mae llawer o ddisgyblion sydd yn newydd i'r Gymraeg a'r ardal yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau Cymraeg mewn amser byr.
- Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel iawn.
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn arddangos cymhelliant cryf i ddysgu.
- Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau cynnydd pob un o'u disgyblion.
- Mae'r ysgol yn darparu cwriclwm perthnasol i lawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw'r cwricwlwm yn diwallu gofynion ychydig o ddisgyblion, ac yng nghyfnod allweddol 3, nid oes digon o amser ar gyfer ychydig iawn o bynciau.
- Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon trwyadl ar gyfer datblygiad mewn medrau rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

## Rhagolygon gwella

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar feithrin disgyblion mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Fodd bynnag, nid yw dyletswyddau'r uwch dîm rheoli wedi'u dosrannu'n synhwyrol ac mae llwyth gwaith sylweddol y pennaeth yn cyfyngu ei hamser i weithredu'n strategol.
- Mae arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau mewn llawer o'r prif ddangosyddion, addysgu effeithiol mewn llawer o wersi, lefelau presenoldeb uchel ac ymddygiad da.
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn. Caiff rhain eu defnyddio'n gynhyrchiol i gynorthwyo staff i ddatblygu'n broffesiynol a mireinio'u medrau addysgu.
- Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod briodol o ddata perfformiad ac yn trafod perfformiad yr ysgol dros amser. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth ddigon cadarn a realistig o berfformiad yr ysgol o'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg i adnabod achosion o danberfformio.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill

A2 Sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a TGCh yn bodloni gofynion yr ystod gyfan o ddisgyblion ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u dosrannu'n briodol i hwyluso capasiti'r uwch dîm rheoli i weithredu'n strategol

A4 Miniogi'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella a sicrhau bod arweinwyr yn llwyr ymwybodol o arwyddocâd data perfformiad wrth arfarnu safonau ac ansawdd yr addysgu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd Ysgol Glan y Môr i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol mewn llawer o ddangosyddion wedi bod yn anwastad dros y pedair blynedd diwethaf. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg mewn tua hanner y dangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4. Yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn amrywiol ond yn agos at ddeilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn agos iawn i'r deilliannau wedi'u modelu am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg eraill am y drydedd flwyddyn yn olynol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o un cyfnod allweddol i'r nesaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 yn is na pherfformiad ysgolion tebyg yn y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn anwastad dros amser. Roedd perfformiad yn 2016 yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg ond, yn 2015, roedd perfformiad yr ysgol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grwp hwn o ddisgyblion. Mae perfformiad bechgyn yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn dangos tuedd o welliant dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae eu perfformiad yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg yn 2016. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol o un cyfnod i'r nesaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un disgybl yn parhau mewn addysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae tueddiad o welliant yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ac mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Mae bron pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac mae llawer ohonynt yn ennill gradd A*-C. Mae llawer o ddisgyblion sydd yn newydd i'r Gymraeg a'r ardal yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau Cymraeg mewn amser byr.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn arddangos cymhelliant cryf i ddysgu. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith blaenorol er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd pellach. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus wrth fynegi barn yn aeddfed ac yn synhwyrol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw bechgyn yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent oherwydd lefelau is o gymhelliant.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac yn dilyn eu cyfarwyddiadau yn ofalus. Maent yn ystyriol ac yn barchus wrth wrando ar safbwyntiau ac ymatebion disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn rhugl a hyderus mewn gwersi. Mae llawer yn cynnig atebion estynedig clir a chywir mewn Cymraeg graenus. Mewn ychydig o achosion, mae safon ymatebion llafar disgyblion yn aeddfed a soffistigedig iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn fedrus ac yn hyderus. Mewn llawer o achosion, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o destunau darllen ac maent yn llwyddiannus wrth ddadansoddi a dehongli. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ystyried testunau mewn digon o ddyfnder.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau ysgrifennu hyfedr gan fynegi barn yn glir ac yn aeddfed. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio geirfa bynciol yn effeithiol ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn atalnodi'n gywir ac yn strwythuro brawddegau a pharagraffau yn rhesymegol. Fodd bynnag, mae mân wallau esgeulus yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau ysgrifennu oherwydd eu bod yn cyflawni tasgau copïo yn hytrach na chynhyrchu gwaith eu hunain.

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn addas. Maent yn cymhwyso dulliau cyfrifo'n bwrpasol mewn ychydig o sefyllfaoedd priodol. Defnyddiant strategaethau addas i ddehongli data ac i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth ar ystod briodol o ffurfiau. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau rhifedd ac maent yn gwneud camgymeriadau sylfaenol, er enghraifft wrth lunio graffiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer eu medrau TGCh yn briodol mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud datblygiad cynyddol yn eu medrau ar draws y pynciau.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn teimlo bod staff yn delio'n dda â'r achosion prin o fwlio. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarnhaol o sut i gadw'n iach. Ceir lefelau uchel o gyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda iawn. Maent yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi ac ar safle'r ysgol yn dda. Ni fu unrhyw waharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol a brwdfrydig iawn tuag at eu dysgu. Mae dylanwad barn disgyblion ar fywyd yr ysgol yn datblygu'n briodol. Mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu'n fuddiol at wella ychydig o agweddau, megis yr arlwy yn y ffreutur. Yn ddiweddar, mae'r cyngor ysgol wedi dechrau lleisio eu barn ar ddysgu ac addysgu a chyfrannu at lunio polisïau ysgol gyfan.

Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 10 yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith yn llwyddiannus ac yn ennill profiadau byd gwaith gwerthfawr. Dangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion barch, gofal a chonsyrn at ei gilydd ac at oedolion. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddigwyddiadau cymunedol, diwylliannol ac elusennol. Er enghraifft, maent yn canu yn yr ysbyty leol ac yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm perthnasol i lawer o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod briodol o gyrsiau galwedigaethol o fewn yr ysgol ac mewn perthynas â choleg addysg bellach lleol. Serch hyn, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw'r cwricwlwm yn diwallu gofynion ychydig o ddisgyblion, ac yng nghyfnod allweddol 3, nid oes digon o amser ar gyfer ychydig iawn o bynciau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datbygu eu medrau pynciol yn llawn. Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ar gyfer cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae ystod eang ac amrywiol o weithgareddau allgyrsiol yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a cherddorol amrywiol a chlybiau fel y clwb trin gwallt.

Mae'r ysgol yn gwneud datblygiad cadarn o ran y ddarpariaeth i wella medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mewn llawer o bynciau, ceir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol yn effeithlon o ran adnabod y disgyblion hynny sy'n cael y drafferth fwyaf â medrau llythrennedd a rhifedd. Cefnogir y disgyblion hyn trwy raglenni cymorth buddiol, ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ar y rhaglenni hyn. Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn TGCh ac mae ychydig o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a defnydd o'r iaith Gymraeg yn nodwedd eithriadol o waith yr ysgol. Mae ethos Cymreig i holl weithgarwch yr ysgol ac mae gweithgareddau megis yr eisteddfod flynyddol yn rhan werthfawr o fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn cwrs llawn TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf a chynigir bron pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol o fewn pynciau penodol. Mae disgyblion y pwyllgor eco wedi dechrau hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae gan bron pob un o'r athrawon berthynas glos, gadarnhaol a chynhyrchiol gyda'u disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith da iawn ac yn cyfathrebu'n eglur. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau cynnydd pob un o'u disgyblion. Maent yn creu deunyddiau addysgu deniadol a symbylus sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn hwyluso'r dysgu yn llwyddiannus. Mae cyflymdra sionc i'r gwersi hyn yn ogystal â strwythur rhesymegol i'r wers. Defnyddia llawer o athrawon amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol ac ysgogol.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae lefel yr her yn briodol i oedran a gallu'r disgyblion. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arwain a datblygu syniadau a dealltwriaeth yn annibynnol. Caiff holi ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynllunio'n nerthol i gynnwys tasgau sydd yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion.

Yn yr ychydig o wersi effeithiol iawn, ceir disgwyliadau uchel iawn o gyflawniad disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn fyrlymus ac yn llawn egni wrth gyflwyno ac ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Maent yn llwyddo i ddatblygu medrau disgyblion trwy ddulliau dychmygus, creadigol a diddorol.
O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd sylweddol.

Mewn ychydig o wersi, lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, nid yw'r addysgu yn diwallu anghenion yr ystod gallu. Nid oes digon o her yn y gweithgareddau, yn enwedig i'r disgyblion mwy abl a thalentog. Mae tueddiad i osod gormod o dasgau ac nid yw'r athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu syniadau eu hunain. Golyga hyn fod gallu disgyblion i gynhyrchu gwaith estynedig annibynnol yn gyfyngedig.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig sylwadau adeiladol a buddiol ar waith disgyblion. Mae lleiafrif o athrawon yn sicrhau fod y disgyblion yn ymateb yn gynhyrchiol i'r sylwadau hyn. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cylchu'r dosbarth er mwyn cynnig adborth buan a phwrpasol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon aml nac yn cwestiynu'r ystod gyfan o ddisgyblion yn eu dosbarth. O ganlyniad, nid oes gan yr athrawon yn y gwersi hyn wybodaeth gynhwysfawr am ddealltwriaeth eu disgyblion.

Mae systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion a strategaethau priodol i fynd i'r afael â thangyflawni. Mae'r adroddiadau interim a'r adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am gyrhaeddiad disgyblion yn erbyn eu targedau, graddau ymdrech a safonau ymddygiad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ac arweiniad gwerthfawr er mwyn hybu iechyd a lles y disgyblion, gan gynnwys egwyddorion bwyta ac yfed yn iach. Mae gan yr ysgol strategaethau llwyddiannus i sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad a gwella presenoldeb. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion, er enghraifft trwy brosiect celfyddydol ar faterion iechyd meddwl.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy wasanaethau diddorol ac yn y cyfnodau cofrestru. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad clir i'r disgyblion.

Derbynia'r disgyblion gyfarwyddyd defnyddiol wrth wneud dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a chyrsiau ôl 16.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder. Trwy weithio'n agos ag asiantaethau arbenigol, mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion y disgyblion hyn yn cael eu diwallu'n llwyddiannus. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd yn effeithiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac yn cynnwys llawer o wybodaeth a strategaethau defnyddiol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion. Mae gan y rhieni a'r disgyblion fewnbwn gwerthfawr i'r cynlluniau addysg unigol hyn. Mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Glan y Môr yn gymuned agos a hapus gydag ymdeimlad cryf o barch ac o berthyn. Mae hyn i'w weld yn amlwg yn agwedd ac ymddygiad bron pob un o'r disgyblion. Mae disgyblion ac athrawon yn parchu ei gilydd ac yn cydweithio'n gynhyrchiol. Mae ynddi ethos cynhwysol a chynhaliol Cymreig. Mae'r disgyblion, rhieni a'r staff yn ymfalchïo yn y modd y mae'r ysgol yn arddel Cymreictod. Nodwedd eithriadol o'r ysgol yw'r ffordd y mae disgyblion newydd i'r ardal, gan gynnwys rhai o wledydd Ewrop, yn setlo'n dda yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd ardderchog wrth ddod yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo goddefgarwch yn llwyddiannus. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag eu anghenion. Caiff pob disgybl fynediad addas i ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Cedwir yr adeiladau a thir yr ysgol yn daclus ac maen nhw'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae cyflwr yr adeiladau a'r cyfleusterau yn arbennig ac mae'r toiledau'n lân a graenus. Mae'r adeiladau yn addas ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd da i hyrwyddo'r dysgu. Mae'r adnoddau ar gyfer chwaraeon yn dda a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau canolfan hamdden gyfagos.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar feithrin disgyblion mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Mae hi'n derbyn cefnogaeth gadarn gan aelodau eraill yr uwchdîm rheoli i gyfathrebu'r

weledigaeth hon i staff yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau mewn llawer o'r prif ddangosyddion, addysgu effeithiol mewn llawer o wersi, lefelau presenoldeb uchel ac ymddygiad da.

Ceir rhaglen o gyfarfodydd cyson sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae llawer o'r cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys pwyntiau gweithredu defnyddiol a dilyniant synhwyrol o un cyfarfod i'r llall.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn. Caiff rhain eu defnyddio'n gynhyrchiol i gynorthwyo staff i ddatblygu'n broffesiynol a mireinio'u medrau addysgu. Mae'r uwch arweinwyr yn delio'n briodol â thanberfformiad drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth ddefnyddiol i arweinwyr pynciol a staff penodol. Fodd bynnag, ar ychydig brydiau, nid ydynt yn defnyddio data perfformiad yn ddigon trylwyr i adnabod achosion o danberfformio.

Mae llawer o benaethiaid pwnc yn arwain eu hadrannau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig ohonynt ymwybyddiaeth ddigon cadarn o sut i ddadansoddi data er mwyn gwella perfformiad. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn gweithredu'n effeithiol i wella presenoldeb a chefnogi disgyblion bregus. Maent yn dechrau gwneud defnydd priodol o ddata i olrhain cynnydd academaidd y disgyblion.

Mae rhan fwyaf o'r swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n synhwyrol a cheir llinellau atebolrwydd clir. Fodd bynnag, mae gan y pennaeth ormod o ddyletswyddau trwm. Mae hyn yn cyfyngu ar ei hamser i weithredu'n strategol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft datblygu llythrennedd a hyrwyddo Cymreictod. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigon cyflym i sicrhau datblygiad rhifedd ar draws y pynciau.

Mae'r llywodraethwyr yn grŵp angerddol sydd yn cynnig cefnogaeth gref i'r ysgol. Maent yn wybodus iawn ynghylch materion cyllidol a staffio ac maent yn ymgymryd â gweithgareddau buddiol fel canfod barn disgyblion a thrafod materion addysgol gydag adrannau cyswllt. Maent yn cynnig her berthnasol i'r ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwbl sicr o arwyddocâd data perfformiad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella llwyddiannus wedi sicrhau gwelliannau mewn meysydd pwysig fel y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a phresenoldeb dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi bod yn ddigon cydlynus a chynhwysfawr i sicrhau gwelliannau priodol mewn ychydig o feysydd eraill, fel perfformiad bechgyn dros amser a darparu cwricwlwm priodol i bob disgybl.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol-gyfan yn adnabod y rhan fwyaf o'r cryfderau a llawer o'r meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn arfarnol ac yn crynhoi canfyddiadau ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd buddiol sydd yn cynnwys holi barn disgyblion a rhieni. Serch hyn, mae'r adroddiad yn or-gadarnhaol ar brydiau.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae cyfleoedd gwerthfawr i bob athro i gyd-arsylwi a chyd-graffu gydag athrawon eraill. Mae arsylwadau ar wersi yn rhoi sylw dyledus ac arfarnol i safonau disgyblion ac addysgu ac yn cynnig meysydd defnyddiol i'w gwella. Mae adroddiadau craffu ar lyfrau yn adnabod cryfderau a meysydd addas i'w gwella ond maent yn dueddol o ganolbwyntio ar ddarpariaeth yn hytrach na safonau disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn yn yr adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan ac yn y mwyafrif o'r adroddiadau adrannol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod briodol o ddata perfformiad ac yn trafod perfformiad yr ysgol dros amser ac yng nghyd-destun ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth ddigon cadarn a realistig o berfformiad yr ysgol o'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. O ganlyniad, mae arfarniadau o ddata perfformiad yn rhy amrywiol o ran ansawdd, uchelgais a miniogrwydd.

Mae cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan a'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau addas ac yn dynodi cyfrifoldebau, dyddiadau, trefniadau monitro a chostau bras. Mae'r gweithredoedd a'r meini prawf llwyddiant yn briodol ar y cyfan ond nid yw ychydig o'r targedau yn ddigon heriol. Mae trefniadau clir ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau gwella ysgol gyfan ac adrannol.

Mae'r mwyafrif o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn adnabod llawer o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gyffredinol yn arfarnol ac yn dadansoddi agweddau o berfformiad dros amser a data lefel eitem yn briodol. Mae ychydig iawn yn ystyried barnau disgyblion. Fodd bynnag, mae tueddiad mewn llawer o'r adroddiadau i osgoi trafod agweddau negyddol ar ddeilliannau a gwaith yr adran. O ganlyniad, nid yw'r adroddiadau hyn yn rhoi darlun cwbl gyflawn a chywir o berfformiad yr adrannau. Yn ogystal, nid yw'r berthynas rhwng safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn ddigon cydlynus.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn cynnwys blaenoriaethau addas ar y cyfan ac yn adlewyrchu llawer o'r blaenoriaethau ysgol-gyfan. Mae'r cynlluniau'n drefnus ac yn cynnwys llawer o weithgareddau addas. Serch hyn, nid yw meysydd pwysig i'w gwella sydd wedi eu hadnabod trwy'r broses hunanarfarnu bob amser yn ymddangos yn y cynlluniau gwella ac ychydig iawn o dargedau meintiol sydd ynddynt.

Nid yw arweinwyr cynnydd yn hunanarfarnu nac yn cynllunio'n ffurfiol ar gyfer gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r disgyblion a'r staff yn elwa o'r ystod o bartneriaethau gwerthfawr sydd gan yr ysgol.

Mae partneriaethau buddiol gydag ysgolion cynradd lleol yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu'n ddiffwdan. Mae trefniadau cryf ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch lles a chyrhaeddiad disgyblion ac ar gyfer cefnogi disgyblion a'u rhieni trwy'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Mae

gweithdrefnau manwl a gofalus ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol trwy'r broses hon. Ceir cyd-gynllunio cwricwlaidd effeithiol gydag ysgolion cynradd partner.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgol a choleg lleol er mwyn ehangu'r ddarpariaeth gwricwlaidd i ychydig o ddisgyblion. Mae deilliannau disgyblion sydd yn astudio'r pynciau a gynigir yn gryf. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon cadarn i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Ceir cysylltiadau clos a chynhaliol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cwblhau profiad gwaith gyda chyflogwyr lleol ac yn hyfforddi a dyfarnu gweithgareddau chwaraeon ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yr ardal. Yn ogystal, mae disgyblion sydd yn astudio arlwyo yn paratoi pryd o fwyd i aelodau o'r gymuned leol bob hanner tymor.

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n gadarn er mwyn cryfhau'r bartneriaeth gyda rhieni. Maent wedi gwella'u systemau er mwyn cyfathrebu gyda rhieni ac yn cynnal holiaduron a fforymau barn defnyddiol er mwyn casglu'u barnau. Mae cyfarfod personol gwerthfawr i bob disgybl cyfnod allweddol 4 a'u rhieni er mwyn trafod eu cynnydd ac mae bron pob rhiant wedi mynychu'r cyfarfod hwn.

Mae partneriaethau cynhyrchiol er mwyn cefnogi lles disgyblion. Mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr ysgol a gwasanaethau lles lleol yn sicrhau darpariaeth effeithiol i ddisgyblion bregus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r swyddog cyllid a'r uwch dîm rheoli yn cynllunio gwariant yn ofalus iawn. Caiff hyn ei fonitro'n agos gan bwyllgor cyllid y llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gan yr ysgol warged gyllidol sydd yn ei chaniatáu i weithredu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae llawer o'r athrawon yn dysgu o fewn eu harbenigedd pynciol. Derbynia'r ychydig o athrawon sydd yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd hyfforddiant a chefnogaeth berthnasol i gyflawni eu rolau'n briodol. Darpara'r ysgol gyfleoedd gwerthfawr i athrawon arsylwi gwersi ei gilydd a rhannu arferion da. Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau hyfforddiant mewn swydd buddiol a derbynia staff gyfleoedd perthnasol i fireinio'u medrau addysgu a datblygu'n broffesiynol. Mae llawer o'r staff addysgu yn aelod o rwydweithiau proffesiynol sydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr addysgu, er enghraifft drwy ymledu arferion symbylol ar ddefnyddio cyfarpar TGCh.

